- i gael penswn ymdddeol Cynllun Blyydd-dal Llywodraeth Leol (LGSS) wedi'i dalu ar unwaith, a thaliad un-sw m ymdddeoliad LGSS; - i fod yn gymwys i gael isafswm statudol y taliad afreidedd hyd yn oed os nad oes ganddyn 2 flynedd o wasanaeth parhaus gyda'r un cyflogwr ar yr amod fod ganddyn 2 flynedd o wasanaeth parhaus yn gweithio i lywodraeth leol.

**iii. Dyfarnu Blynyddoedd Ychwanegol o Wasanaeth Cyfrifadwy**

Hefyd gall cyflogwyr llywodraeth leol benderfynu wella penswn ymdddeol LGSS a thaliad un-sw m ymdddeoliad LGSS i weithwyr 50 oed a throsodd gyda mwy na 5 flynedd o wasanaeth cyfrifadwy drwy ddylarnu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth cyfrifadwy. Dyfemir yn ôl ewylllys y cyflogwr, ac nid oes hawl awtomatig i gael dyfarniad.

9. Sir Gaerfyrddin  
 Dosbarthau presennol Caerfyrddin, Dinefwr a  
 Llanelli.
10. Sir Benfro  
 Dosbarthau presennol Preseli Sir Benfro a De Sir  
 Benfro ynghyd ag Ynys Byr ac Ynys Farged.
11. Abertawe  
 Dosbarth presennol Abertawe, ynghyd ag  
 ardaloedd cymunedau Tregwyr, Llŵchwyr,  
 Gorseinon, Pengelli, Pontarddulais, Mawr, Pont-  
 lliw, Penlle'r-gaer, Llangyfelach a Chlydach (o  
 ddosbarth Dyffryn Lliw).
12. Gorllewin Morgannwg  
 Dosbarthau presennol Castell-nedd a Phort  
 Talbot, ynghyd ag ardaloedd cymunedau  
 Pontardawe, Gwanucaegurwen, Cwmlllynfell,  
 Ystalyfera a Chilybebyll (o ddosbarth Dyffryn  
 Lliw); ac ardaloedd cymunedau Ystradgynlais a  
 Thawe Uchar (o ddosbarth Brycheiniog).
13. Pen-y-bont ar Ogwr  
 Dosbarth presennol Ogwr, heb gynnwys  
 ardaloedd cymunedau'r Wig, Saint-y-brid,  
 Ewenni a Llangrallio Isaf.
14. Bro Morgannwg  
 Dosbarth presennol Bro Morgannwg, ynghyd ag  
 ardaloedd cymunedau'r Wig, Saint-y-brid,  
 Ewenni a Llangrallio Isaf.
15. Cymoedd Morgannwg  
 Dosbarthau presennol Rhondda, Cwm Cynon a  
 Thaf-Elái, heb gynnwys ardal cymuned Penyrch  
 (o ddosbarth Taf-Elái).
16. Blaenau'r Cymoedd  
 Dosbarthau presennol Blaenau Gwent a Merthyr  
 Tudful, ynghyd ag ardaloedd cymunedau  
 Rhymni, Cwm Darren, a Threddegar Newydd (o  
 ddosbarth Cwm Rhymni).
17. Caerffili  
 Dosbarth presennol Islwyn, ynghyd ag ardaloedd  
 cymunedau Bargod, Gelli-gaer, Nelson, Cwm  
 Aber, Llanbradach, Penyrheol, Maesygwmer,  
 Bedwas a Machen, Caerffili, Y Fan, a Rhydri  
 (o ddosbarth Cwm Rhymni).
18. Tor-faen  
 Dosbarth presennol Tor-faen.
19. Sir Fynwy  
 Dosbarth presennol Trefynwy.
20. Casnewydd  
 Dosbarth presennol Casnewydd.
21. Caerdydd  
 Dosbarth presennol Caerdydd, ynghyd ag ardal  
 cymuned Penyrch (o ddosbarth Taf-Elái).

1. Sir Fôn	Dosbarthau presennol Arfon, Dwyrfor a Meirionnydd, ynghyd ag ardaloedd cymunedau Cynwyd a Llandrillo (o ddosbarth Glyn-dwr).
2. Sir Gaerffon a Sir Ffeirionnydd	Dosbarthau presennol Maldwyn, Maesylf a Brycheiniog ynghyd ag ardaloedd cymunedau Llanstlin, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, a Llangedwyn (o ddosbarth Glyn-dwr) ond heb gynnwys ardaloedd cymunedau Ystradgynlais a Thawe Uchat (o ddosbarth Brycheiniog).
3. Aberconwy a Cholwyn	Dosbarthau presennol Aberconwy a Cholwyn, heb gynnwys ardaloedd cymunedau Cefn Meiriadog a Threfnant (o ddosbarth Colwyn). Dosbarth presennol Rhuddlan, ynghyd ag ardaloedd cymunedau Llanasa, Trelawnyd a Gwaunyssgor, Mostyn, Chwytffordd, Caerwys, Ysgeifiog, Brynffordd, Nannerch, Helygain, Cilcain, Gwernafeld, Cyffylliog, Rhuthun, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llanrhaeadr-yn-g-Nghinmeirch, Nantglyn, Dimbich, Landymog, Llangynhafal, Llanys, Llanferres, Ciocaenog, Efenechdyd, Llandegla, Llanfair Dyffryn Clwyd, Llanarmon-yn-Iâl, Llanellidan, Derwen, Betws Gwertul Goch, Gwyddelwern, Bryneglwys, Corwen, Llantysilio, Llangollen, Llangollen Wledig (o ddosbarth Glyn-dwr).
4. Sir Ddinbych	Dosbarthau presennol Alun a Glannau Dyfrdwy a Delyn, heb gynnwys ardaloedd cymunedau Llanasa, Trelawnyd a Gwaunyssgor, Mostyn, Chwytffordd, Caerwys, Ysgeifiog, Brynffordd, Nannerch, Helygain, Gwernymynydd, a Nercwys (o ddosbarth Delyn). Dosbarth presennol Wrecsam Maelor, ynghyd ag ardaloedd cymunedau'r Waun, Glyntraean, Llanseanffraid Glyn Ceiriog, a Cheiriog Ucha (o ddosbarth Glyn-dwr).
5. Sir y Fflint	Dosbarthau presennol Ceredigion.
6. Wrecsam	Dosbarthau presennol Maldwyn, Maesylf a Brycheiniog ynghyd ag ardaloedd cymunedau Wrecsam Maelor, ynghyd ag ardaloedd cymunedau'r Waun, Glyntraean, Llanseanffraid Glyn Ceiriog, a Cheiriog Ucha (o ddosbarth Glyn-dwr).
7. Sir Aberteifi	Dosbarthau presennol Maldwyn, Maesylf a Brycheiniog ynghyd ag ardaloedd cymunedau Wrecsam Maelor, ynghyd ag ardaloedd cymunedau'r Waun, Glyntraean, Llanseanffraid Glyn Ceiriog, a Cheiriog Ucha (o ddosbarth Glyn-dwr).
8. Powys	Dosbarthau presennol Maldwyn, Maesylf a Brycheiniog ynghyd ag ardaloedd cymunedau Wrecsam Maelor, ynghyd ag ardaloedd cymunedau'r Waun, Glyntraean, Llanseanffraid Glyn Ceiriog, a Cheiriog Ucha (o ddosbarth Glyn-dwr).



**8.12** Bydd y Mesur yn darparu i'r Corff Gweddilliol eitheddu a rheoli asedion, hawiau a rhwymedigaethau na throsglwyddir mohonynt i'r awdurdodau unedol ar 1 Ebrill 1995. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig y dybld rhoi i'r Corff Gweddilliol y pŵer i drosglwyddo neu i gael gwared ar unrhyw asedion gweddilliol yn ôl yr angen. Y Corff Gweddilliol fydd yn gyfrifol am sicrhau'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer cau cyfrifon tertlynol yr awdurdodau presennol.

**8.13** Rhoddir i'r Corff Gweddilliol hefyd bwerau i reoli unrhyw swyddogaethau gweinyddol neu arbenigol, am gyfnod dros dro yn unig, pan nad oes modd i awdurdodau unedol ymgymryd â'r swyddogaethau hyn ar unwaith. Fel arfer byddai'r cyfryw drefniadau'n cael eu sefydlu yn sgîl cais gan y darpar awdurdodau perthnasol yn unig.

**8.11** Bydd gan y Corff Gweddilliol rôl ganolog i'w chwarae wrth arolygu'r proses o drosglwyddo hawliau a rhwymedigaeithau tir ac eiddo o'r awdurdodau presennol i'r awdurdodau unedol newydd. Mae'r Llywodraeth yn rhagweld y bydd y mwyafrif o'r asedion yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdodau unedol newydd drwy orchmynnion trosglwyddo statudol, a fydd yn gyffredinol yn gymwys i grwpiau o asedion a gysylltir yn ôl eu swyddogaeth.

**8.10** Bydd y Mesur a gyflwynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn creu Corff Gweddilliol. Caiff hwnnw ei sefydlu'n ffurfiol ar ôl y Cydsyniad Brenhinol, ond os oes rhaid caiff ei sefydlu ar ffurf darpar gorff. Un Corff Gweddilliol fydd i Gymru. Bydd ganddo oes feidrol a bydd yn ofynnol iddo gwblhau ei waith o fewn 5 mlynedd.

### Corff Gweddilliol

**8.9** Dylai'r cyd-bwyllgorau gwblhau'r gwaith paratoi hwn erbyn yr amser i'r etholi y darpar awdurdodau. Byddai'r gwaith a wneid gan y pwyllgorau ar ffurf canllawiau a chynghor rhagarweiniol ond ni fyddai'n rhwymu'r darpar awdurdodau wrth baratoi eu cynlluniau cyflwyno gwasanaethau.

**8.8** Dylai'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno gwasanaethau ddechrau cyn gynted â phosibl; ni ellir gadael y cyfan i'r darpar awdurdodau. Gan gydnabod hyn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu mabwysiadu pŵerau yn y Mesur i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau presennol yn ardal pob awdurdod unedol arfaethedig sefydlu cyd-bwyllgor i nodi a thratod materion cyflwyno gwasanaethau. Cyn gwneud y cyfryw ddarpariaeth, caiff yr awdurdodau presennol eu hanog i sefydlu cyd-bwyllgorau o'r fath yn wirfoddol. Dylai gwaiith y cyd-bwyllgorau gymwys ystod eang o faterion ac ni ddylid ei gyfyngu i edrych ar gyflwyno gwasanaethau yn unig. Bydd angen iddynt ystyried trefniadau etholiadol ar gyfer yr awdurdodau newydd; llunio rhestr o asedion; nodi adnoddau o ran staff; paratoi rhestr o'r systemau technoleg gwybodaeth; a nodi hawliau a rhwymedigaeithau arifannol.

### Cyd-bwyllgorau

**8.7** Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd gwneud trefniadau i ofynnol felly i ddarpar awdurdodau gyhoeddol cynlluniau'n cynnwys pob sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu cyflwyno'n ddi-dor. Bydd yn gwasanaeth, gan nodi eu trefniadau arfaethedig ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.

**8.1** Bydd ad-drefnu yn newid mawr, sy'n gofyn am wair paratoi gotalus a manwl ar bob cam o'r broses. Bydd trefniadau effeithiol a phriodol yn hanfodol os yw'r newid o'r hen i'r newydd yn mynd i fod yn rhydd ac yn llwyddiannus.

### Trefniadau Etholiadol

**8.2** Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai etholiadau i ddarpar awdurdodau gael eu cynnal ar ddiwrnod cylleus ym 1994, gyda'r awdurdodau newydd yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros eu swyddogaethau ar 1 Ebrill 1995. Esbonnir gwair y darpar awdurdodau isod. Bydd ymglyngori pellach a chymdeithasau awdurdodau lleol Cymru ynghylch nifer yr aelodau a etholir i bob awdurdod newydd.

**8.3** Mae'r Llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r drefn a ddefnyddiwyd ar gyfer ad-drefnu 1974 unwaith eto: set y dylai'r Ysgrifennydd Cartref (sy'n gyfrifol am faterion etholiadol yng Nghymru) gymryd pŵerau i rannu drwy Offeryn Statudol dirioogaeth pob awdurdod yn ardaloedd etholiadol ac i bennu nifer yr aelodau sydd i'w hethol o bob un. Bydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru yn cynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ym mhob awdurdod pan fydd yr awdurdodau newydd yn eu lle.

**8.4** Mae cynlluniau'r Llywodraeth yn rhagweld cynnal etholiadau i'r awdurdodau newydd bob 4 blynedd (felly fe fydd yr etholiadau nesaf yn digwydd ym 1998), a hynny ar sail "cyngor cyfan". Hefyd bwriedir parhau i gynnal etholiadau i gynghorau cymuned bob pedair blynedd, a'r rhain yn digwydd hanner ffordd drwy oes yr awdurdodau unedol (ym 1996, 2000 ac yn y blaen).

**8.5** Ar gyfer yr etholiadau i'r darpar awdurdodau ym 1994, bydd swyddogaeth gweinyddu'r etholiad a swyddogaeth Swyddogion Canlyniadau yn gyfrifoldeb i swyddogion yr awdurdodau presennol, wedi'u pennu gan yr Ysgrifennydd Cartref yn sgl ymglyngori'n lleol.

### Darpar Awdurdodau

**8.6** Ar ôl eu hethol, bydd rhaid i ddarpar awdurdodau benderfynu ar eu strwythurau rheoli a phenodi staff allweddol, a byddant wedyn yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynlluniau'n dangos sut y bydd gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn eu hardaloedd o 1 Ebrill 1995 ymlaen. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i'r cynghorau presennol gyfrannu symiau penodedig i'r darpar awdurdodau; yn ychwanegol rhoddir pŵerau cyfyngedig i'r darpar awdurdodau fenthycu. Bydd angen iddynt hefyd gydgysylltu'n agos â'r Corff Gweddilliol (y disgrifir ei swyddogaethau isod) ar faterion trosglwyddo eiddo.

## Didlymu Cynghoran Cymuned

**7.11**

Cred y Llywodraeth y gall y darpariaethau presennol sy'n llywodraethu didlymu cynghoran cymuned weithio yn erbyn ysbryd democrataeth leol trwy ganiatáu didlymu cynghoran ar ormod o rîs. I sicrhau bod unrhyw benderfyniad yn y dyfodol i ddiddlymu cynghor cymuned yn wybodus ac wedi'i ystyried yn brifodol, mae'r Llywodraeth yn cynnig:

- ymestyn y cyfnod hysbysu y mae ei angen cyn cyfarfoddydd i drafod didlymu o 14 i 30 diwrnod;
- ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i gyfarfod a gynheli'r i drafod lleol neu 30% o'r etholwyr lleol (p'un bynnag yw'r lleiaf) er mwyn i bleidlais fwyafrol i'w gwneud yn ofynnol i bleidlais o'r holl etholwyr lleol fod yn ddilys;
- pennu na ellir gwneud unrhyw benderfyniad i gynnal pleidlais ymhlith etholwyr lleol ynghylch didlymu cynghor cymuned ond ar sail pleidlais fwyafrol yn y cyfarfod cymuned hwnnw;
- ei gwneud yn ofynnol cael cyfnod o 42 diwrnod o leiaf rhwng y cyfarfod cymuned a'r pleidlais;
- darparu na ddylid cynnal unrhyw bleidlais bellach am o leiaf dwy flynedd os caiff cynnig i ddiddlymu ei drechu.

**7.12**

Bydd y cynnigion hyn yn caniatáu i gymunedau lleol barhau i ymarfer y dewis a ydynt am gael cynghoran cymuned i'w cynrychioli neu beidio. Ond mae'r Llywodraeth yn credu y byddant yn sicrhau gwell cydbwysedd nag a getr ar hyn o bryd rhwng hawliau pobl leol i benderfynu sut y maent am gael eu cynrychioli ar y lefel fwyaf lleol (os o gwbl), a hawliau cynghoran cymuned, ar ôl eu sefydlu, i gael eu diogelu rhag eu diddlymu ar sail treffiadau a gynheli'r ar rîs.

**7.13**

Cred y Llywodraeth fod achos da hefyd o blaid diwygio'r treffiadau ar gyfer sefydlu cynghoran cymuned. Cyllywyr cynnigion i'w gwneud yn ofynnol, ar ôl 1 Ebrill 1995, beidio â sefydlu cynghoran cymuned newydd ond ar ôl pleidlais ymhlith etholwyr lleol.

**7.10** Etholir cynghorwyr cymuned i wasanaethu am bedair blynedd; cynhaliwyd yr etholiadau diwethaf ym 1991, ac felly fe gynhelir y rhai nesaf ym 1995. Bwriad y Llywodraeth yw y dyllid cynnal etholiadau i'r awdurdodau unedol newydd bob pedair blynedd, gan ddechrau ym 1994, ac y dylai etholiadau'r cynghorau cymuned gael eu cynnal hamer ffordd trwy oes yr awdurdodau unedol newydd. I gyflawni hyn felly, bydd angen gohirio etholiadau'r cynghorau cymuned sydd i'w cynnal ym 1995 am flwyddyn, ac i gynghorwyr sydd mewn swydd ym 1995 barhau i wasanaethu tan 1996. Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori â'r cymdeithasau sy'n cynrychioli cynghorau lleol ar y dreft hyn.

## Etholiadau i Gynghorau Cymuned

**7.9** Er hynny, ceir dwy ffordd o leihau'r costau sy'n syrthio ar y cynghorau cymuned a hynny heb dansellio'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae gan gynghorau dosbarth eisoes bwr de wisol i dalu'r costau a dynnir gan swyddogion canlyniadau wrth weinyddu etholiadau cynghorau cymuned. A lle bydd cynngor cymuned yn contractio ag awdurdod i ddarparu gwasanaeth yn lleol am y ffi cost-law, nid effeithir ar swm y praecept. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnig annog yr awdurdodau unedol newydd i wneud mwy o ddefnydd o'r ddau drefniant hwn.

**7.8** Cred y Llywodraeth y dylai cynghorau cymuned barhau i gael eu hariannu ar sail praeceptau lleol yn hytrach nag o grantiau uniongyrchol oddi wrth y llywodraeth gan ei bod yn bwysig i bobl lleol fod yn ymwybodol o beth y mae eu cynngor cymuned yn costio iddynt.

**7.7** Ni roddir cyfrifoldebau statudol ychwanegol i gynghorau cymuned dros gyflwyno gwasanaethau. Er hynny, fe ddisgwyllir i awdurdodau unedol ymchwilio gyda'r cynghorau cymuned hynny sy'n mynegi diddordeb i'r posibilrwydd bod y cynghorau hynny yn darparu rhai gwasanaethau yn lleol fel asiant. Pan ddigwyddai hyn byddai'n agored i'r cynngor cymuned, pe bai'n dymuno, wella lefel y gwasanaeth ar ei gost ei hun.

## Cyflwyno Gwasanaethau a Threfniadau Ariannol

**7.6** Yn ogystal fe fydd yn dal yn agored i unrhyw gynngor cymuned ar unrhyw amser gyflwyno sylwadau i'r awdurdod unedol ar unrhyw later sy'n effeithio ar ei ardal. Ac fe ddisgwyllir i awdurdodau unedol, fel mater o arfer adda, roi gwybod i gynghorau cymuned am unrhyw benderfyniadau a wneir ar laterion y cafwyd sylwadau yn eu cylch.

**7.1** Ym mis Gorffennaf 1992 cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru bapur ymgynghori ar swyddogaeth cynghorau cymuned a thref yng Nghymru o dan strwythur o awdurdodau unedol. Yn eu hymatebion pwysleisiodd y cynghorau cymuned werth eu rôl bresennol ac fe oflymodd llawer ohonynt – yn enwedig y rhai mwyaf – am gynydd yn eu pŵerau a'u hadnoddau presennol er mwyn eu galluogi i gyflwyno mwy o wasanaethau yn lleol.

**7.2** Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd cynghorau cymuned ac nid yw'n bwriadu lleihau ar eu pŵerau na'u cyfrifoldebau presennol mewn unrhyw ffordd. Ond, yn yr un modd nid oes ganddi unrhyw ddymuniad i ail-gyflwyno system dwy haen o lywodraeth lleol trwy ychwanegu at eu pŵerau presennol i gyflwyno gwasanaethau.

**7.3** Yn lle hynny mae'n gweld cynghorau cymuned yn y dyfodol yn gweithredu'n gynyddol mewn partneriaeth ag awdurdodau unedol trwy rôl gyntrecholiadol eslynnedig ac, i gyd-fynd â'r cysyniad o hwyluso, trwy gyfrannu, lle bo hynny'n ymarferol, at gyflwyno gwasanaethau. Nodir cynigion y Llywodraeth ar gyfer cyflawni hyn isod.

### Y Rôl Gynrychiolaol

**7.4** Mae gan gynghorau cymuned rôl bwysig fel yr uned sylfaenol o ddemocratiaeth leol. Maent yn gweithredu fel llais i gynrychioli eu cymunedau, gan wneud eu barn yn hysbys i haenau uchaf y llywodraeth a chytrff eraill y gallai eu gweithredadau effeithio ar eu hardaloedd. Mae llawer yn chwarae rhan bwysig yn y broses gyflunio ac, yn unol â'u cais, cânt wybod am bob cais cyflunio sy'n ymwneud â'u hardal.

**7.5** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnig ychwanegu at y rôl gynrychiolaol hon o dan y system newydd o awdurdodau unedol. Yn enwedig fe fydd:

- yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar awdurdodau bennu yn eu cynlluniau ynghylch cyflwyno gwasanaethau eu treftadau artaethedig ar gyfer gweithio gyda'r cynghorau cymuned yn eu hardaloedd. Bydd angen paratoi'r cynlluniau hyn drwy ymgynghori â'r cynghorau cymuned;
- yn rhoi canllawiau i'r awdurdodau unedol ar y treftadau ar gyfer ymgynghori a chynghorau cymuned a'r materion y cred y dylai ymgynghori o'r fath eu cynwys;
- yn cymryd pŵer wrth gefn i'w alluogi – os yw'n anfodlon ar y ffordd y mae awdurdodau yn ymateb i'w ganllawiau – i benodi drwy Offeryn Statudol y materion y mae'n rhaid i awdurdodau unedol ymgynghori a chynghorau cymuned yn eu cylch.

**6.10** Bydd costau sylweddol eraill yn codi wrth sefydlu a rhedeg y darpar awdurdodau; dod â materion yr awdurdodau presennol i ben; rhesymoli systemau technoleg gwybodaeth; ac, mewn rhai manau, adeiladu neu brynu adeiladau ar gyfer y cynghorau newydd. Fe fyddai'r mwyafrif o'r costau hyn wedi codi ni waeth faint o awdurdodau unedol a gai eu sefydlu.

**6.11** Bydd y Llywodraeth yn cymryd camau i sicrhau cadw'r costau dros dro mor isel a phosibl. Ceir derbyniodau o werthu tir ac eiddo gormodol, yn arbennig yn y manau hynny lle ceir pencadlysoedd sirol a dosbarth. Mewn llawer ardal, mae yna fwy na digon o swyddfeydd yn cael eu rhedeg gan y cynghorau presennol eisoes i gartrefu staff yr awdurdodau unedol. Bydd y Corff Gweddilliol, y disgrifir ei swyddogaethau ymhellach ym Mhenod 8, yn chwarae rhan allweddol wrth nodi asedion gormodol a sicrhau'r pris gorau amdanant. Bydd sefydlu corff o'r fath fel un ganolfan arbenigedd ar ddrynnu asedion a thrafod materion dros dro eraill yn ateb mwy cost-effeithiol na gorfodi'r awdurdodau presennol i wneud y gwaith hwn. Mewn rhai ardaloedd, mae'n bosibl na fydd patrwm yr adeiladau presennol yn cyd-fynd ag anghenion yr awdurdodau newydd. Bydd y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth ofalus i geisiodau am gymeradwyo credyd i adeiladu neu i brynu swyddfeydd newydd yn yr achosion hyn, ond bydd yn disgwyl i'r adeiladau presennol gael eu defnyddio yn cyfamser, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu bod rhai o'r staff yn cael eu lleoli y tu allan i dirioogaeth awdurdod unedol.

**6.12** Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cymryd pwerau i reoli gwneud contractau a gwerthu tir neu brynu tir neu adeiladau. Bydd y rheolau'n gymwys o ddyddiad ethol y darpar awdurdodau a byddant yn sicrhau na fydd y cynghorau presennol yn cymryd camau amhriodol cyn iddynt gael eu dileu nac yn creu gwaith diangen neu ormodol i'r awdurdodau newydd. Yn ystod y cyfnod dros dro mae'r Llywodraeth yn cynnig y bydd angen cytundeb y darpar awdurdod (neu awdurdodau) cyn i'r cynghorau presennol allu:

- gwneud contract refeniw gwerth dros £100,000 sy'n ymestyn y tu hwnt i 31 Mawrth 1995;
- gwneud contractau o natur gyfalaf (gan gynnwys prynu tir, adeiladau neu asedion cyfalaf eraill) gwerth mwy na £1 miliwn;
- gwerthu tir neu adeiladau gwerth mwy na £100,000.

6.9 Mae'r ymgynghorwyr yn amcangyfrif y gallai costau droo o rhwng £66 miliwn a £153 miliwn fod wedi codi o dan strwythur o 23 o awdurdodau unedol. Yr elfen fwyaf sylweddol yw cost iawndal i'r staff hynny a fydd yn colli eu swyddi o ganlyniad i'r ad-drefnu. Nid yw'r Llywodraeth wedi amcangyfrif lefel debygol y swyddi a gollir. Bydd yr union gost yn dibynnu ar benderfyniad y Llywodraeth ar drefniadau iawndal (gweler paragraff 5.6 uchod); ar benderfyniadau'r darpar awdurdodau am eu strwythurau rheoli a staffio; ac ar drefniadau i gyflwyno gwasanaethau. Felly ar hyn o bryd nid oes modd bod yn sicr am gost iawndal i'r staff.

## ii. Costau Droo Dro

6.8 Ceir arbedion sylweddol yng nghostau gweithredu rhai o wasanaethau llywodraeth leol o ganlyniad i gyflwyno'r awdurdodau unedol, ond mewn eraill ceir cynydd yn y costau. Mae ymgynghorwyr y Llywodraeth wedi cynghori y gallai gwasanaethau, o dan strwythur o 23 o awdurdodau, gael eu cyflwyno'n fras heb gost ychwanegol i'r system bresennol, a bod modd sicrhau arbedion (Mae'r Llywodraeth yn cynnig 21 o awdurdodau.) Bydd union lefel yr arbedion yn dibynnu ar y trefniadau ynglŷn â rheoli a chyflwyno gwasanaethau a fabwysiedir gan yr awdurdodau newydd. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol na ddylai'r awdurdodau newydd allu defnyddio ad-drefnu i guddio cynnydd gormodol mewn gwariant ac yn lefelau biliau'r treth gyngor. Bydd yn defnyddio system cyllid llywodraeth leol i sicrhau bod posiblirwydd arbedion yn cael ei wireddu a bod gwariant cynghorau'n gyffredinol yn cael ei gadw o dan reolaeth.

## i. Costau Gweithredu

6.7 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi comisiynu cyngor oddi wrth ymgynghorwyr rheolaeth annibynnol ar y costau droo a allai godi wrth symud i strwythur newydd o lywodraeth leol yng Nghymru, ac ynghylch costau gweithredu'r awdurdodau unedol.

## Costau Ad-drefnu

6.6 Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu pennu Aseidiadau Gwario Safonol ar gyfer awdurdodau tan cyfun. Caiff yr awdurdodau hyn eu hartian oddi wrth y cynghorau sy'n aelodau ohonynt yn yr un ffordd i raddau helaeth ag a wna'r awdurdodau heddlu cyfun ar hyn o bryd.

yswiritant a rhai dyledion am fenthyciadau, lle na fyddai'n ddoeth nac yn ymarferol eu rhannu rhwng awdurdodau unedol, o leiaf yn y tymor byr. Mae'r Llywodraeth yn rhoi pwyslais arbennig ar osgoi unrhyw dартu ar daliadau penswn i gyn staff llywodraeth leol.



**6.1** Un o bŵl amcanion ad-drefnu llywodraeth leol yw creu strwythur sy'n dileu dyblygu diangen ac yn cynnig gwell gwerth am arian i'r trefndalwr. Mae'n hanfodol bod y strwythur newydd yn gallu darparu gwasanaethau'n gost-effeithiol a chynnig posibilrwydd enillion yn sgîl effeithlonrwydd. Mae'r llywodraeth yn ymwybodol bod newidadau mewn strwythur a threfnidadau ariannu, yn y gorffennol, wedi cyd-ddigwydd â chynnydd sydyn yng ngwariant llywodraeth leol. Mae'r llywodraeth yn benderfynol na ddylai hyn ddigwydd eto. Er y bydd creu awdurdodau unedol a dileu'r cynghorau presennol yn golygu costau, bydd y llywodraeth yn cynnydd pob cam y mae ei angen i gadw'r costau hyn i'r lleiaf posibl gan sicrhau bod y mantision i gwsmeriaid gwasanaethau'r awdurdodau lleol yn fwy na hwy yn y tymor hirach.

### System Cyllid Llywodraeth Leol

**6.2** Yn sgîl ad-drefnu, ni fydd angen unrhyw newidadau o bwys yn system cyllid llywodraeth leol Cymru. Yr awdurdodau unedol a fydd yn gyfrifol am bennu a chasglu'r dreth gyngor am eu hardaloedd ac am gasglu trethi annomestig. Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae cyflwyno awdurdodau unedol yn golygu y bydd y cyngor sy'n rhoi'r bil treth lleol yn defnyddio'r rhan fwyaf o'r arian y mae'n ei godi at ei ddibenion ei hun. Bydd angen trefnidadau arbennig i sicrhau y daw adennill unrhyw ôl-ddyledion treth gyngor, taliadau cymunedol neu drethi annomestig ar 31 Mawrth 1995 yn gyfrifoldeb i'r awdurdod unedol y maent yn perthyn i'w dirtoegaeth. Oherwydd dileu'r ail haen, ni chred y llywodraeth y bydd angen cadw'r gwahaniantaeth rhwng cronfeydd cyffredinol a chronfeydd casglu yng Nghymru mwyach. Yn lle hynny bydd yn ofynnol i bob awdurdod unedol gadw "cronfa gyngor" i dderbyn arian y dreth gyngor, grant oddi wrth y llywodraeth ganolog, ac incwm arall.

**6.3** Bydd rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Bristio baratoi rhestrau priso newydd ar gyfer y dreth gyngor a rhestrau trethi annomestig newydd i ddod i rym o 1 Ebrill 1995 ymlaen. Nid oes gan y llywodraeth unrhyw gynlluniau i ohio ail-bristio eiddo annomestig, a adlewyrchir mewn rhestr newydd ar 1 Ebrill 1995. Caiff y rhestrau drafft y mae'n rhaid i'r Asiantaeth eu paratoi yn Rhagfyr 1994 eu llunio ar sail ffiniau'r awdurdodau unedol.

**6.4** Gwneir darpariaeth i alluogi'r darpar awdurdodau i gyflawni rhai swyddogaethau cyn 1 Ebrill 1995, gan gynnwys cyfrif eu sylfaen treth a phennu'r dreth gyngor. Os dymuna'r awdurdodau unedol anfon eu biliau treth gyngor cyntaf cyn dechrau blwyddyn ariannol 1995-96, bydd angen iddyni wneud trefnidadau priodol i'r cynghorau presennol wneud y gwaith bilio.

**6.5** Bydd angen i awdurdodau arweiniol gael eu nodi at ddibenion cronfeydd blwydd-dâl (a weinyddir gan yr wyth sir ar hyn o bryd), cronfeydd

**5.7** Hefyd gall yr awdurdodau newydd dalu lwfansau i staff sydd, oherwydd yr ad-drefnu, yn gorfod teithio'n bellach i'r gwaith neu sy'n gorfod symud cartref er mwyn bod yn nes at eu man gweithio newydd. Penderfynir union lefel y taliadau hyn gan bob awdurdod ar ôl ymgynghori â'r staff a'u cynrychiolwyr a chan roi sylw i'r treftadau presennol.

## Comisiwn Staff

**5.8** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu cymryd pŵerau yn y Mesur i sefydlu Comisiwn Staff annibynnol. Bydd angen i waith y Comisiwn ddechrau cyn gynted â phosibl, ac felly sefydlir darpar Comisiwn Staff ar ôl Ail Ddarlleniad y Mesur. Caiff y Comisiwn ei sefydlu'n ffurfiol cyn gynted ag y caiff y Mesur y Cydsyniad Brenhinol, a bydd yn ofynnol iddo orffen ei waith erbyn 1 Ebrill 1996.

**5.9** Prif dasg y Comisiwn fydd cynghori ar drosglwyddo staff o'r awdurdodau presennol i'r cynghorau newydd. Ran amlaf, bydd yn eglur i ba awdurdod y dylid trosglwyddo unigolyn. Ond bydd angen i'r Comisiwn ymgynghori ynghylch trosglwyddiadau sy'n cynnwys staff sy'n gwasanaethu ardal a rennir rhwng dau neu ragor o awdurdodau unedol. Wrth lunio cyngor ar drosglwyddiadau, disgwylir i'r Comisiwn gymryd dymuniadau'r staff, gofynion yr awdurdodau newydd a ffactorau eraill, megis ble mae'r staff yn byw ac yn gweithio ar hyn o bryd, i ystyriaeth.

**5.10** Cynigir mai corff ymgynghorol fydd y Comisiwn, ac ni fydd ganddo bŵer i gyfarwyddo awdurdodau i gydymffurfio â'i gyngor. Er hynny, bydd ganddo ran holl-bwysig i'w chwarae, a bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i gyfarwyddo, i'w ddefnyddio ar gais y Comisiwn, i sicrhau cydymffurfio ag unrhyw gyngor a roir gan y Comisiwn.

## Apelan

**5.11** Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd sefydlu mecanwaith effeithiol i drafod apelau sy'n codi o'r treftadau ar gyfer ad-drefnu. Mae'n cynig bod y Comisiwn Staff yn mabwysiadu mecanwaith presennol y Cynghorau Rhanbarthol i drafod apelau o'r fath, gydag unrhyw addasiadau priodol.

**5.1** Yn draddodiadol mae llywodraeth leol yn gyfllogwr o bwys yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru, yn arbennig felly yng nghefn gwlad, ac ar hyn o bryd mae cynghorau sir a dosbarth Cymru gyda'i gilidd yn cyflogi rhyw 150,000 o bobl. Mae 10,000 yn rhagor, gan gynnwys swyddogion heddlu, yn gweithio mewn gwasanaethau y mae llywodraeth leol yn gyfan gwbl neu'n rhanol gyfrifol amdanynt.

**5.2** Bydd yr ad-drefnu yn cynnwys materion o bwys i bersonel. O 1 Ebrill 1995 ymlaen ni fydd unrhyw aelod o staff yn gweithio i'r un awdurdod ag ar 31 Mawrth 1995. Ond er na fydd y mwyafrif o'r staff ond yn newid cyfllogwr, bydd eraill, ac yn arbennig y rhai sy'n gweithio mewn gweinyddu canolog ac yn y swyddi rheoli uchaf, yn debygol o gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr ad-drefnu. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pryderson a fydd gan y staff.

### Trosglwyddo Staff

**5.3** Caiff y mwyafrif helaeth o'r staff eu trosglwyddo'n awtomatig, drwy gyfrwng Gorchymyn, i un o'r awdurdodau newydd ar 1 Ebrill 1995. Byddant yn cadw eu telerau a'u hamodau presennol. Bydd gan staff na chânt eu trosglwyddo drwy gyfrwng Gorchymyn ac a fydd heb sicrhau swydd newydd o fewn llywodraeth leol hawl fel arfer i gael iawndal.

**5.4** Mater i'r awdurdodau newydd fydd penderfynu ar eu gofynion o ran treiniaeth, rheolaeth a staffio, gan gymryd i ystyriaeth fedrau a phrofiad y staff sydd wedi'u trosglwyddo iddynt. Mae'n annhebygol y profir unrhyw newid gan y mwyafrif o weithwyr llywodraeth leol, megis athraron, staff a gyfllogir yn y gorsafoced tan a staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl neu mewn swyddfeydd tai ardal. Gall rhai o'r staff sy'n gweithio mewn neuaddau tref ac mewn swyddi rheoli uchel weld y bydd eu dyletswyddau a/neu eu man gweithio yn newid.

**5.5** Anogir yr awdurdodau newydd i gymryd pob cam posibl i ail-leoli neu i ail-hyfforddi staff nad oes unrhyw swyddi tebyg i'w swyddi presennol ar eu cyfer. Lle nad oes modd gwneud hyn, gall fod rhaid gwneud staff yn afreidiol.

### Iawndal

**5.6** Lle gwneir staff yn afreidiol, telir iawndal. Ceir crynodeb yn Atodiad 2 o'r treiniadau iawndal presennol ar gyfer gweithwyr awdurdodau lleol. Nid yw'r Llywodraeth wedi penderfynu'n derfynol a ddylai'r treiniadau hyn gael eu newid o gwbl ar gyfer cynnod yr ad-drefnu. Ni fyddai newidiadau o'r fath yn amharu ar y blynyddocedd o wasanaeth sy'n cyfrif tuag at bensiw neu daliadau iawndal. Caiff goblygiadau unrhyw newid ar gyfer costau eu pwysu a'u mesur yn ofalus gan y Llywodraeth cyn iddi gyhoeddi ei phenderfyniad.

mae'r awdurdodau lleol yn cydweithredu'n helaeth ar faterion safonau masnachau; bydd y Llywodraeth yn cydategu hyn drwy gyfrwng cynngor a chanllawiau technegol yn ôl y gofyn i adranau safonau masnachau yng Nghymru i sicrhau parhad gwaith effeithiol y gwasanaeth.

**4.48** O fewn fframwaih lle ceir awdurdodau o wahanol faint, a phob un ohonynt yn gyfrifol ac yn atebol am y gwasanaeth safonau masnach yn ei ardal, bydd angen trefniadau i sicrhau parhad effeithiolrwydd ac unffurdedd wrth orfodi'r gyfrith ac wrth gymig cyngor i ddefnyddwyr a busnes. Eisoes

diogelu gallu proffesiynol ac arbenigedd yr adranau safonau masnach. gwaith y nifer cymharol fach o staff yn fwy ymestynnol byth. Mae'n bwysig oll yn parhau i wneud gweithgareddau safonau masnach n'fwy cymhleth a diwydianau gweithgynhyrchu a gwasanaethu, a disgyliadau uwch defnyddwyr deddfwriaeth y Gyuned Ewropeaidd, soffistigeiddrwydd cynyddol pwysig ar ran defnyddwyr. Mae galwadau cynyddol deddfwriaeth ddomestig a Mae'r gwasanaeth safonau masnach yn cyflawni swyddogaethau

## SAFONAU MASNACHU

**4.46** Y cynghorau sir sydd ar hyn o bryd yn gyfrifol am drefniadaeth leol y gwasanaeth cofrestru, gan gynnwys penodi swyddogion cofrestru a darparu adeiladau ar gyfer cofrestru. Trosglwyddir y cyfrifoldebau hyn i'r awdurdodau newydd. Ceir 38 o ddosbarthau cofrestru yng Nghymru, y bydd angen adolygu eu ffiniau yng ngoleuni'r cynigion i ad-drefnu llywodraeth leol; helyd bydd angen llunio cynlluniau cofrestru newydd, i'w cymerau gan yr Ysgrifennydd weinyddu'r gwasanaeth yn ganolog, yn ymgynghori â'r cynghorau presennol a'r darpar awdurdodau (ar ôl eu hethol) ar y materion hyn.

## Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau

**4.45** Ceir 16 o awdurdodaethau crwneriaid yng Nghymru. Y cynghorau sir sy'n gyfrifol am benodi crwneriaid ac am ariannu'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Cyflawnir y cyfrifoldebau hyn gan yr awdurdodau newydd, ond nid yw'r Llywodraeth am weld cynydd yn nifer presennol yr awdurdodaethau crwneriaid ac mae o blaid cyfuno rhai o'r rhai lleiaf. Anogir rhai o'r awdurdodau newydd i wneud trefniadau gwirfoddol i rannu'r gwasanaeth crwneriaid mewn rhai manau, a hynny i gymig gwasanaeth cydlynus a chost-effeithiol. Lle gwneir cyd-drefniadau, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cymryd pwerau i benderfynu, ar ôl ymgynghori, pa awdurdod a fydd yn gyfrifol am benodi'r crwner a pha drefniadau ariannol a fydd yn briodol. Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori â'r partion sydd â diddordeb ynglych dyfodol awdurdodaethau crwneriaid yng Nghymru.

## Y Gwasanaeth Crwneriaid

angen ail-lunio rhai o ffiniau'r ardaloedd profiannaeth. Cynhelir trafodaethau ar y materion hyn gyda'r rhai o dan sylw. Ni fyddai'r Llywodraeth yn dymuno gweld cynydd yng nghyfanswm nifer yr ardaloedd profiannaeth yng Nghymru.

artfaethedig y De yn cynnwys yr awdurdodau unedol i'r de ohono. Mae'r cwestiwn a ddylai Abertawe fod yn rhan o grŵp y Canolbarth a'r Gorllewin neu gael ei gyfuno ag awdurdod y De yn gwestiwn y bydd y Llywodraeth yn ei ystyried mewn ymateb i unrhyw sylwadau ar y cynigion hyn.

### **Cynllunio Argyfwng**

**4.40** Cred y Llywodraeth fod rhaid i'r cyfrifoldeb dros gynllunio cyflwyno gwasanaethau mewn argyfwng gael ei arddel gan yr awdurdod sydd â'r cyfrifoldeb beunyddiol dros gyflwyno'r gwasanaethau hynny. Er hynny, nid yw rychinebau'n parchu ffiniau gweinyddol ac mae'r Llywodraeth yn credu hefyd y bydd angen i waih cynllunio argyfwng yr awdurdodau lleol gael ei gydgysylltu ar lefel strategol, a hynny rhwng yr awdurdodau a chyd a gwasanaethau eraill.

**4.41** Daw cynllunio argyfwng yn gyfrifoldeb i bob awdurdod unedol newydd, ond bydd angen cynnal y gwaith cydgysylltu strategol dros dirogaeth newydd. Mae'r angen am gydwethrithred agos gyda'r gwasanaethau heddiu a than ym awgrymu manteision canolbwyntio'r gwaith cydgysylltu strategol ar yr awdurdod a sefydlir ar gyfer y gwasanaethau hynny. Pan gaiff y rheiny eu penderfynu, cynhelir trafodaethau gyda'r rhai o dan sylw sut orau y mae gwneud y gwaith cydgysylltu hwmw.

### **Llysoedd Ynadon**

**4.42** Ar hyn o bryd trefnir gwasanaeth y llysoedd ynadon yng Nghymru yn wahan gan bwyllgor sy'n cynnwys ynadon lleol yn unig bron. Fe'i hariannir gan ol ardaloedd 8 o bwyllgorau llysoedd ynadon, a phob un yn cael ei reoli ar y cynghorau sir, sy'n adhahwlio 80% o'u gwarant oddi wrth y llywodraeth ganolog ar ffurf grant penodol.

**4.43** Yn Chwefror 1992, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn ar strwythur a threfniadaeth gwasanaeth y llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol. Nodwyd cynlluniau i leihau nifer ardaloedd pwyllgorau llysoedd ynadon drwy gyfuno'r ardaloedd lleiaf. Bydd yr ardaloedd newydd yn bodloni anghenion gweithredol y gwasanaeth yn well. Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei phenderfyniadau ar ardaloedd pwyllgorau llysoedd ynadon newydd yn ystod Haf 1993. Bydd strwythur newydd yr awdurdodau lleol yn ffactor yn threfniadaeth gwasanaeth y llysoedd ynadon yng Nghymru yn y dyfodol.

### **Y Gwasanaeth Profïannaeth**

**4.44** Ar hyn o bryd ceir 7 ardal broffïannaeth yng Nghymru, a 6 ohonnynt a'u ffiniau'n cyd-fynd â ffiniau cynghorau sir. Mae'r seithfed – ardal y Gogledd – yn cynnwys Clwyd a Gwynedd. Bydd i'r newidiadau artfaethedig yn strwythur llywodraeth leol oblygiadau ar gyfer gweinyddu arfan profïannaeth a bydd

**4.39** Bydd ffiniau'r awdurdodau cyfun yn cyd-fynd â ffiniau'r awdurdodau unedol. Cynnig yr Ysgrifennydd Cartref yw y dylai'r tair brigad bras-gymnwys Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, a De Cymru yn eu tro. Byddai Awdurdod Tân cyfun y Canolbarth a'r Gorllewin yn cynnwys awdurdodau unedol arfaethedig Sir Aberteifi, Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac, o bosibl, Abertawe. Byddai Awdurdod Tân arfaethedig y Gogledd yn cynnwys yr awdurdodau hynny i'r gogledd o'r grŵp cynaf; byddai Awdurdod Tân

**4.38** Ar hyn o bryd ceir wyth brigad dan yn gwasanaethu Cymru, a hynny ar sail strwythur y cynghorau sir presennol. Y cyngor sir yw'r awdurdod tân ar gyfer pob brigad. Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cael cyngor gan y Cyngor Ymgynghorol Canolog Brigadau Tân ar oblygiadau'r adolygiad o lywodraeth leol Cymru ar gyfer cyflwyno gwasanaethau tân. Wedi cymryd y cyngor hwnnw i ystyriaeth, o'r dyddiad y sefydlir yr awdurdodau unedol newydd ymlaen mae ef wedi penderfynu y dylid cael tair brigad dan yng Nghymru. Darperir y rhain gan dri awdurdod tân cyfun a fydd yn cynnwys cynrychioliwyr yr awdurdodau unedol sy'n eu ffurio. Sefydlir yr awdurdodau cyfun drwy ddefnyddio pŵerau presennol o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947.

### Y Gwasanaeth Tân

**4.37** Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi cynigion ar gyfer dyfodol y gwasanaeth heddlu yng Nghymru a Lloegr yn nes ymlaen eleni. Bydd y cynigion hyn yn cymryd strwythur newydd llywodraeth leol Cymru i ystyriaeth.

**4.36** Ar hyn o bryd ceir pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru. Mae tri ohonynt yn awdurdodau cyfun, a'u heddluoedd yn gwasanaethu Gwynedd a Chlwyd, Dyfed a Phowys, a sroedd Morgannwg, yn eu tro. Yng Ngwent, pwyllgor heddlu Cyngor Sir Gwent yw'r awdurdod heddlu, a thirïogaeth y sir yn unig a wasanaethir gan ei heddlu.

### Y Gwasanaeth Heddlu

**4.35** Mae llywodraeth leol yn ymwneud â nifer o wasanaethau cyfrith a threfn a gwasanaethau diogelu. Weithiau yr awdurdodau unigol sy'n statudol gyfrifol am wasanaeth arbennig, ond mewn achosion eraill corff arall sy'n gyfrifol gyda'r awdurdodau lleol yn rhoi arian i'w gethngi.

### CYFRATH A THREFN A GWASANAETHAU DIOGELU

o dan contract neu o dan drefniadau asiant. gwasanaethau yn cynnwys y sector breifat a, lle bo'n briodol, awdurdodau eraill awdurdod yn gallu prynu gwasanaethau trawidiadaeth a phrifffyrdd, mae'n bosibl na fydd yn effeithiol nac yn ddarbodus i rai ddarparu'n uniongyrchol lwy na'r gwasanaethau gweithredol sylfaenol. Bydd ffynonellau allanol a all ddarparu gwasanaethau neu o dan drefniadau asiant.

**4.34** Mae pob awdurdod prifffyrdd lleol newydd yn debygol o sicrhau darparu gwasanaethau drwy gymysgedd o ffynonellau mewnol ac allanol, a'r cydbwysedd yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys nifer y milltir oedd o ffyrdd y mae'n gyfrifol amdanynt, hyd a lled y gwasanaethau cjudiant cyhoeddus, ei swyddogaeth (os oes un) fel asiant ffyrdd cysylltu ar ran y Swyddfa Gymreig, a'i allu i recriwio a chadw staff proffesiynol. Er y bydd pob

**4.33** Daw pob awdurdod unedol yn awdurdod prifffyrdd lleol ar gyfer ei strategol ehangach sy'n berthnasol iddynt hwy a'u cymdogaion. rhwng yr awdurdodau prifffyrdd er mwyn nodi'r angenion a'r ystyriaethau trawidiadol lleol. I baratoi cynlluniau trawidiadol lleol bydd angen cydwethredau gwasanaethau cjudiant cyhoeddus cymdeithasol-hanfodol, ac am gynllunio dirigedd, a bydd yn gyfrifol am sicrhau a chyflwyno gwasanaethau prifffyrdd a

**4.32** O dan y trefniadau newydd, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadw ei gyfrifoldeb dros y rhwydwaith o draffyrdd a ffyrdd cysylltu. Ym mhob rhan o Gymru, bydd yn penodi un o'r awdurdodau newydd i weithredu yn asiant iddo ar gyfer gwaith ffyrdd cysylltu. Bydd adranau prifffyrdd yr awdurdodau unedol eraill fel asiantwr neu drwy gyfrwng trefniadau cydwethredol eraill.

**4.31** Y cynghorau sir yw'r awdurdodau prifffyrdd ar gyfer ffyrdd lleol yn eu hardal, a hwy sy'n gyfrifol am gynllunio trawidiadol. Dirprwyir gwaith cynnal arferol a gwaith adnewyddu strwythurol ar y draffordd a'r ffyrdd cysylltu iddynt gan y Swyddfa Gymreig o dan drefniadau asiant, gan ddefnyddio'r wybodaeth lleol a'r arbennigedd ym maes prifffyrdd sydd gan bob sir yn sgîl ei chyfrifoldeb dros ffyrdd lleol yn ei hardal.

## TRAFNIDIAETH A PHRIFFFYRDD

**4.30** Rhaid i wasanaethau cymdeithasol gael eu rheoli gyda sensitifrwydd a gofal arbennig. Ni waeth pa mor bell y dirprwyir y gwaith o gyflwyno gwasanaethau i ddarparwr eraill, rhaid i'r atebolrwydd fod yn eglur ac, ar lefel reoli strategol, cynllunio a phrynu, disgwylir i bob awdurdod unedol newydd fod yn uniongyrchol atebol i'r bobl lleol.

o agweddau ar ddarparu gwasanaethau fel hyn. bydd rhai awdurdodau, ac yn arbennig y rhai lleiaf, yn penderfynu trafod llawer ddarparu gwasanaethau ar gyfer eu tiriogaeth. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y hwyuso ymhellach. Gallant wneud trefniadau gydag eraill, lle dymunant, i phartneriaeth sydd eisoes yn bodoli, byddant yn gallu datblygu eu swyddogaeth effeithiol ac yn ddarbodus. Drwy adelladu ar y seiliau o gydwethredau a



cyflieodd i bobl ifanc ac oedolion gytraedd eu potensial llawn a datblygu'r medrau y mae eu hangen yn yr economi Cymreig. Bydd yr awdurdodau unedol hefyd yn awyddus i wneud y gorau o'r manteision i'w cymunedau yn sgîl cymryd rhan mewn rhaglenni Ewropeaidd, twristiaeth a buddsoddiadau o'r tu allan; ac i weithio gyda'r llywodraeth ganolog a'r asiantaethau perthnasol i ddatblygu strategaethau ar gyfer adnewyddu trefi a chefn gwlad Cymru. Cred y Llywodraeth y rheolir y gwaith hwn yn effeithiol gan yr awdurdodau newydd yn gweithio'n amibynnol er y bydd cyfle, fel ar hyn o bryd, ar gyfer cydwethreded buddiol rhwng grwpiau o awdurdodau a rhwng awdurdodau unigol ac asiantaethau.

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A THAI

**4.26** Mae'r gwasanaethau cymdeithasol (un o swyddogaethau'r siroedd ar hyn o bryd) yn enghraifft o wasanaeth sydd eisoes yn datblygu dulliau arloesol o gyflwyno gwasanaethau. Mae partneriaeth yn thema allweddol yn y trefniadau gofai cymunedol ac yn Neddf Plant 1989. Bydd yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn cydwethio'n agos gyda'r awdurdodau tai (cynghorau dosbarth) a'r gwasanaeth iechyd i ddarparu rhwydwaith o ofal, a chydau'r rhain ac asiantaethau eraill megis yr awdurdodau addysg lleol, yr heddlu a'r gwasanaeth profiamaeth i ddarparu gwasanaethau plant. Mae'r sector wrifodol yn ymwneud yn agos â'r holl feysydd hyn, a bu Cymru ar y blaen wrth ddatblygu ymagweddau newydd at gyflwyno gwasanaethau gyda'r Strategaethau Anfantais Ffedydiol a Salwch Meddwl. Ceir parodtrwydd i fabwysiadu atebion newydd a sylfaen o brofiad i adeiladu arno.

**4.27** Tai yw un o'r gwasanaethau mwyaf a ddarperir gan y cynghorau dosbarth presennol. Mae trefniadau'r gwasanaeth yn amrywio, ond rheolir ar lefel leol neu lefel y gymdogaeth fel arfer. Mae swyddogaeth strategol a swyddogaeth hwylyso'r dosbarthau – wrth asesu yr angen am dai a'u cyflwr, wrth reoli'r sector breifat ar rent ac wrth sicrhau darparu tai newydd priodol – yn dal i ddatblygu.

**4.28** Un o fanteision allweddol y trefniadau newydd yw y dygîr y

cyfrifoldeb dros swyddogaethau sy'n perthyn yn agos at ei gilydd. Bydd agorswydd y swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol a'r swyddogaeth tai yn caniatáu canobwyo'n cllriach ar y lefel strategol a gweithreded hollol integredig wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer unigolion. Dylai'r perthnasocdd gydag asiantaethau'r sector wrifodol, a'r gwaith o dargedu adnoddau arnynt, gael eu gwella hefyd.

**4.29** O dan y trefniadau newydd, yr awdurdodau unedol newydd fydd â'r cyfrifoldeb strategol allweddol dros bennu amcanion a sicrhau gwasanaethau'n

## CYLLUNIO DEFNYDDIO TIR A DATBLYGIAD ECONOMAIDD

**4.22** Mae'r cyfrifoldeb am bob un o'r gwasanaethau hyn wedi'i rannu ar hyn o bryd rhwng y siroedd a'r dosbarthau. Felly bydd creu awdurdodau unedol yn dilieu'r dyblygu presennol ar weinyddu a'r dryswch ymhlith y cyhoedd.

### Cynllunio

**4.23** Yn achos cynllunio defnyddio tir, bwriedir i bob awdurdod newydd

fod yn gyfrifol am baratoi cynllun datblygu ar gyfer ei dirïogaeth, heb gynnwys unrhyw ran o'i dirïogaeth sydd o fewn Parc Cenedlaethol. Bydd y cynllun yn cynnwys polisiau strategol ynghylch defnyddio tir a pholisiau a chynigion

manwl ynghylch defnyddio tir. Bydd yr awdurdodau newydd hefyd yn paratoi polisiau mwynau, i'w cynnwys yn eu cynlluniau datblygu. Bydd darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol ymgynghori ag awdurdodau cyfagos wrth baratoi cynllun datblygu. Bydd rhai materion strategol megis cynllunio mwynau a'r gyd-berthynas rhwng defnyddio tir a chudiant yn gofyn am gydwethiaredu rhwng

grwpiau o awdurdodau i sicrhau y caiff anghenion yr ardal ehangach eu cymryd i ystyriaeth. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio'i bwerau i ymyrryd os cred nad yw materion strategol wedi cael digon o sylw, neu nad yw'r cynlluniau yn rhoi digon o sylw i ganllawiau cynllunio cenedlaethol a strategol.

**4.24** Cynigir y bydd awdurdod pob Parc Cenedlaethol, gan gymryd

cynlluniau datblygu'r awdurdodau unedol newydd perthnasol i ystyriaeth, yn paratoi cynllun datblygu ar gyfer ei dirïogaeth ac yn paratoi polisiau mwynau i'w cynnwys ynddo. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ar wahân i setydlu awdurdodau ambynnol ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr. Nid oes penderfyniad ar amseru'r deddfwriaeth honno wedi'i gymryd eto, ond fe fydd angen trefnidau priodol i sicrhau trosglwyddo cyfrifoldebau'r Parciau Cenedlaethol yn llyfn i'r awdurdodau unedol newydd, os cânt eu creu cyn y ddeddfwriaeth ar y Parciau Cenedlaethol.

### Datblygiad Economaidd

**4.25** Un o gonglfeim'r polisiau a fabwysiadwyd ar gyfer adfywiad

economaidd Cymru fu creu partneriaethau agos a llwyddiannus rhwng y gwahanol gyfrif o dan sylw, gan gynnwys llywodraeth ganolog a lleol, yr asiantaethau statudol a'r sector breifat. Ar y lefel leol, daeth datblygiad economaidd yn weithgarech dewisol pwysig i'r siroedd a'r dosbarthau ill dau a rhagwelir swyddogeth yr un mor werthfawr ar gyfer yr awdurdodau unedol newydd. Bydd eu hamcanion yn cynnwys sicrhau bod fframwaith addas yn ei le i gynnal datblygiad diwydiannol a masnachol. Byddant yn gweithio gyda'r Cynghorau Hyfforddi a Menter i hybu menter leol ac i ddarparu ystod gyflawn o wasanaethau ar gyfer busnes ac, ym meysydd addysg a hyfforddi, i gynnig

## Chwaraeon a Hamdden

**4.18** Bydd gan yr awdurdodau newydd bŵer i sicrhau cyflusterau chwaraeon, canolfannau hamdden, meysydd chwarae, a manau cyhoeddus a manau agored. Byddant yn gallu gweithredu'n amibynnol i ddarparu'r gwasanaethau hyn, yn ogystal â chydweithredu gyda'i gilydd lle byddai hynny'n fwy effeithlon ac effeithiol.

## Amgueddfeydd ac Orielau

**4.19** Bydd pŵer i ddarparu amgueddfeydd ac orielau gan yr awdurdodau lleol o hyd. Mewn rhai rhanau o Gymru, gall fod yn ddoeth i'r awdurdodau newydd gydweithredu i gynnal a datblygu'r gwasanaethau hyn. Bydd yn ofynnol i awdurdodau gynhyrchu cynlluniau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn a gwasanaethau eraill ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu cadw pŵerau wrth gefn, am fwyddyn gyntaf yr awdurdodau newydd, y byddai'n eu defnyddio pe na bai cynigion yr awdurdodau lleol yn diogelu'r gwasanaethau pwysig hyn.

## Canolfannau Celfyddydau a Chetnogaeth i'r Celfyddydau

**4.20** Bydd pŵerau o hyd gan yr awdurdodau lleol i gefnogi'r celfyddydau ac i ddarparu theatrau. Gall yr awdurdodau newydd weithredu'n amibynnol neu gydweithredu ag awdurdodau eraill fel y gwelant yn dda. Bydd cynlluniau'r awdurdodau newydd, i nodi sut y bwriadant sicrhau gwasanaethau, yn cynnwys manylion am sut y byddant yn sicrhau parhad canolfannau celfyddydau mawr a gefnogi'r ar hyn o bryd gan y cynghorau sir. Fel hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl y bydd modd osgoi'r angen am drefniadau arbennig i ddarparu artian dros dro.

## Archifdai

**4.21** Bydd angen i'r awdurdodau newydd sefydlu trefniadau i ddiogelu archifdai. Bydd angen o hyd i ddynwyl gael cymrawdwyfaeth Adran yr Arglwydd Ganghellor i drefniadau ar gyfer cadw cofnodion cyhoeddus swyddogol yn ddiogel. Mae'n debyg y bydd angen i rai o leiaf o'r awdurdodau newydd sefydlu trefniadau cydweithredol i sicrhau'r gwasanaethau hyn yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Llywodraeth yn cynnig trefniadau dros dro i ddiogelu'r ddarpariaeth, a fydd yn debyg i'r rhai a ddisgrifir yn uchod ar gyfer amgueddfeydd ac orielau.

## ADDYSG, GWASANAETHAU DIWYLLIANNOL A HAMDDEN

### 4.14 Addysg

Mae hynny'n wir p'un a gant eu cynnal a grant gan y Llywodraeth neu a oes ganddynt gyllideb wedi'u dirprwyo oddi wrth eu hawdurdod lleol. Wrth i nifer yr ysgolion a gynhelir a grant gynyddu, bwriad y Llywodraeth, yn dibynnu ar hynnt y Mesur Addysg sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yw setyllu Cyngor Ariannu Ysgolion ar gyfer Cymru. Bydd hwnnw'n gweinyddu ariannu ysgolion a gynhelir a grant a, lle bo cyfran sylweddol (o leiaf 10%) o naill ai disgyblion cynradd neu ddisgyblion uwchradd yn ardal awdurdod addysg lleol yn mynychu ysgolion a gynhelir a grant, bydd yn rhannu gyda'r AALl y cyfrifoldeb dros sicrhau darparu digon o leocdd ysgol.

### 4.15

O fewn y fframwaith newydd hwn, bydd yr awdurdodau newydd yn ymgymryd a dyletswyddau a phwerau statudol yr awdurdodau addysg presennol. Gan weithio gydag ysgolion ac ar eu rhan, byddant yn gallu sicrhau ystod eang o wasanaethau. Gweithredant mewn ffordd debyg wrth sicrhau'r addysg bellach ar gyfer oedolion sy'n dal i fod yn gyfrifoldeb yr AALl o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Byddant yn gweithio gyda chyrff gwirfoddol i ddatblygu'r wasanaeth ieuencid.

### 4.16

Mewn llawer rhan o Gymru, bydd cydweithredu rhwng yr awdurdodau newydd yn nodwedd bwysig ar gynllunio strategol; datblygu ysgolion newydd; darparu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg anghenion arbennig; a datblygiad a hyfforddiant staff i weithredu'r cwticwltwm cenedlaethol. Mae'n debygol hefyd y bydd o gymorth i'r awdurdodau gydwethio i sicrhau ystod o wasanaethau eraill, megis canofannau preswyl arbennigol, partneriaethau addysg/busnes a chlyfleoedd yn y celfyddydau megis cerddorteydd ieuencid a theatr yn yr ysgolion, er y bydd ysgolion unigol yn chwarae rhan o bwys wrth sicrhau'r gwasanaethau hyn drwy ddefnyddio'u cyllidebau dirprwyedig. Bydd angen hefyd i'r AALl weithio gyda'r Cyngor Ariannu Ysgolion arfaethedig lle bo'n briodol. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i arddel pwerau wrth gefn y gall eu defnyddio os cred nad yw cyfrifoldebau'n cael eu harddel yn foddhaol.

### Llyfrgelloedd Cyhoeddus

### 4.17

Yr awdurdodau newydd fydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mewn llawer o achosion bydd angen i'r awdurdodau weithio gyda'i gilydd i sicrhau gwasanaethau cynhwysfawr, effeithlon ac effeithiol. Bydd pwerau wrth gefn gan yr Ysgrifennydd Gwladol o hyd i'w defnyddio os cred nad yw'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyflawni'n foddhaol.

yn helpu'r awdurdodau presennol a'r awdurdodau newydd i ymdopi â'r cyfnod trosglwyddo cymhleth.

#### **Gweithio gyda Chyrtff Cyhoeddus Eraill**

**4.11** Bydd gan lywodraeth leol yng Nghymru berthnasodd gweithio pwysig o hyd gydag asiantaethau eraill megis yr awdurdodau iechyd, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, a'r Cynghorau Hyfforddi a Menter. Caiff y perthnasoedd hyn eu gwella os bydd modd cadw cyd-ffiniau gweinyddol. Felly mae'r Lywodraeth yn cynnig adolygu ffiniau'r asiantaethau priodol, drwy ymgynghori â hwy, er mwyn iddynt beidio â chroesi ffiniau'r awdurdodau unedol newydd (cyn belled a phosibl).

#### **Gweithio gyda'r Sector Wirfoddol**

**4.12** Mae'r sector wirfoddol yn chwarae rhan gynyddol bwysig yng

Nghymru, gan weithio mewnartneriaeth â llywodraeth ganolog, llywodraeth leol ac eraill. Buddsoddiwyd llawer o amser, ymdrech ac adnoddau wrth ddatblygu'r berthynas hon. Bydd ad-drefnu llywodraeth leol, ac yn arbennig datblygu ymhellach ar swyddogaeth hwylyso'r awdurdodau lleol, yn creu cyfleoedd a heriau newydd i'r cyrtff gwirfoddol. Bydd y Llywodraeth yn annog awdurdodau lleol i gydweithredu'n agos gyda'r sector wirfoddol ac yn gyfrtedinol i wneud defnydd da o'i chytraniaid holl-bwysig at gymunedau lleol. Trefnir sicrhau bod yr awdurdodau unedol newydd yn anrhydeddu'r trefniadau ariannu presennol sy'n ymestyn y tu hwnt i Fawrth 1995. Wrth iunio'r cynlluniau gwasanaethau y cyfeirir atynt ymhellach ym Mhenod 8, gofynnir i'r darpar awdurdodau nodi eu cynigion ar gyfer gweithio gyda chyrtff gwirfoddol ac fe'u hanogir i adeiladu ar y trefniadau presennol.

#### **Trefniadau ar gyfer Gwasanaethau Penodol**

**4.13** Bydd yr awdurdodau newydd yn gallu gweithredu ar eu pen eu hunain i drefnu cyflwyno llawer o'u gwasanaethau. Bydd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r holl faterion hynny y mae'r cynghorau dosbarth yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd, gan gynnwys gwasanaethau holl-bwysig megis tai; casglu gwastraff; iechyd yr amgylchedd; gweinyddu etholiadau lleol; cenedlaethol ac Ewropeaidd; casglu'r dreth gyngor a threthi annomestig; a rheoli datblygu. Yng ngwasanaethau'r sir oedd presennol y ceir y cyflie mwyaf i ddatblygu ymagweddau dychymygu ac arloesol at gyflwyno gwasanaethau. Yn y paragraffau a ganlyn ceir sylwbaeth ar y math o gyflieoedd a fydd ar gael i greu trefniadau newydd o'r fath.

**4.10** Bydd y trosglwyddo o'r strwythur presennol i'r un newydd yn gofyn am reoli gofalus, am y gallai cytundebau gyda'r staff mewnoi a chontractau gyda'r sector breifat ddod i ben adeg ad-drefnu neu tua'r adeg honno ac am y bydd llawer o'r awdurdodau newydd yn eitifeddu amrywiaeth o wahanol gyfundebau oddi wrth yr awdurdodau presennol a allai gynnwys rhan yn unig o'u tiriogaeth. Mae gan awdurdodau lleol bwerau eisoes i estyn contractau gyda'r sector breifat i oresgyn anawsterau o'r fath. Bydd contractau presennol gyda'r sector breifat a bydd angen eu trosglwyddo i'r awdurdodau unedol priodol. Setydlir trefniadau cyffelyb am gyfundebau gyda chyrff gwasanaethu uniongyrchol. Lle disgwylir i'r rheiny ddod i ben ychydig cyn neu ychydig ar ôl yr ad-drefnu, caniatatir i'r awdurdodau unigol eu hymestyn am gyfnod byr y tu hwnt i Ebrill 1995, os dymunant. Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu cynnwys pŵer dros dro a fydd yn caniatáu i gortff gwasanaethu uniongyrchol sy'n cynnwys tiriogaeth mwy nag un awdurdod unedol weithredu yn y cyfan o'r ardal honno am hyd at ddwy flwydd yn dilyn ad-drefnu. Bydd y trefniadau hyn

**4.9** Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'n gadarn i dendro cystadleuol gyda'r contractau cynaf yn cael eu rhoi o Ebrill 1997 ymlaen. ofynnol i'r darpar awdurdodau gynllunio i agor y gwasanaeth hwn i gystadleuaeth, cystadleuol gortffol ym maes rheoli tai wedi'i chyhoeddi eisoes: bydd yn ad-drefnu ddiwydd. Mae amserlen y Llywodraeth ar gyfer gweithredu dendro ffurfiol ofynnol i awdurdodau Cymru agor gwasanaethau i gystadleuaeth nes i'r ar hyn o bryd gyda'r awdurdodau lleol a diddordebau eraill, ond ni fydd yn trafodaethau manwl ar ymestyn dendro cystadleuol gortffol yn cael eu cynnal gwasanaethau eraill a'u hagor i gystadleuaeth cyn gynted â phosibl. Mae gyflwyno ffurfiol ar gyfer gwasanaethau corfforathol a of Local Services". Anogir awdurdodau lleol Cymru, fel mater o arferion da, i eraill fel y'i cynigwyd yn "Competing for Quality – Competition in the Provision of Local Services". Mae'r Llywodraeth yn croesawu hyn ac wedi cyhoeddi ei bwriad i ymestyn dendro cystadleuol gortffol i nifer o wasanaethau eraill fel y'i cynigwyd yn "Competing for Quality – Competition in the Provision of Local Services". Anogir awdurdodau lleol Cymru, fel mater o arferion da, i gyflwyno ffurfiol ar gyfer gwasanaethau corfforathol a gwasanaethau eraill a'u hagor i gystadleuaeth cyn gynted â phosibl. Mae trafodaethau manwl ar ymestyn dendro cystadleuol gortffol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda'r awdurdodau lleol a diddordebau eraill, ond ni fydd yn ffurfiol ofynnol i awdurdodau Cymru agor gwasanaethau i gystadleuaeth nes i'r ad-drefnu ddiwydd. Mae amserlen y Llywodraeth ar gyfer gweithredu dendro cystadleuol gortffol ym maes rheoli tai wedi'i chyhoeddi eisoes: bydd yn ofynnol i'r darpar awdurdodau gynllunio i agor y gwasanaeth hwn i gystadleuaeth, gyda'r contractau cynaf yn cael eu rhoi o Ebrill 1997 ymlaen.

### Tendro Cystadleuol Gortffol

**4.8** Cred y Llywodraeth fod cyn le ar gyfer rhagor o ddatblygu ar gydwethredau rhwng awdurdodau lleol, ac y bydd y manteision yn fwy lle cydwethredir yn wirfoddol. Er hynny gall fod achosion pan na all awdurdodau gydwethrio ar delerau sy'n bodloni'r ddwy ochr. Rhaid peidio â chaniatáu i hyn effeithio ar gyflwyno gwasanaethau; ac felly mae'r Ysgrifennydd Cwladol yn bwriadu y bydd ganddo bwerau wrth gefn, i'w defnyddio yn ôl y gofyn i sicrhau bod y trefniadau priodol ynghylch cyflwyno gwasanaethau yn eu lle.

**4.5** Un dewis yn unig o blith yr ystod o fecanweithiau sy'n agored i'r awdurdodau newydd sicrhau gwasanaethau a chael gwerth am arian fydd cyflwyno gwasanaethau'n uniongyrchol. Yn gynyddol, bydd y pwyslais yn symud tuag at gymysgedd o ddarpariaeth uniongyrchol ac anniongyrchol, gan ofyn am dynnu gwahaniaeth eglur rhwng prynu a darparu. Mae'r gwahaniaeth hwn yn ei gwneud yn ofynnol i brynwyr (set y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau gwasanaethau) allu pennu'r gwasanaethau y maent am eu prynu; ac i

ddarparwyr, a darparwyr posibl, allu ymateb gyda chymigion sy'n dangos sut y bodlonir y manylebau. Yn gyffredinol bydd modd i'r berthynas rhwng prynwyr a darparwyr gael ei llywodraethu drwy gyfrwng contractau.

### Gweithio gydag Eraill

**4.6** Rhaid i'r awdurdodau fod yn uniongyrchol atebol i'r bobl leol am y

gwasanaethau y maent yn eu sicrhau (drwy eu prynu neu fel arall). Felly bydd yr awdurdodau unedol newydd fel rheol yn gyfrifol o dan y gyfraith am sicrhau darparu gwasanaethau. Ond nid yw cyfrifoldeb statudol yn golygu y dylai pob awdurdod ei hun geisio darparu pob agwedd ar wasanaeth, ac felly bydd angen i'r awdurdodau feddu ar fframwaith cyfreithiol ystyryth sy'n caniatáu iddynt weithio'n llawer mwy agos â'i gilydd gan brynu gwasanaethau ac arbenigedd oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth asiantaethau allanol - gan gynnwys y sector breifat a'r sector wirtoddol. Felly bydd y Llywodraeth yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith y gall awdurdodau unedol ddabilygu treiniau arloesol i gyflwyno gwasanaethau a chydweithredu â'i gilydd ar draws yr ystod o wasanaethau llywodraeth leol o'i fewn. Bydd y fframwaith hwn hefyd yn fodd i'r awdurdodau lleol gael gafael ar ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau ond, fel ar hyn o bryd, ni châi cynghorau werthu gwasanaethau i'r sector breifat.

**4.7** Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 eisoes yn caniatáu i awdurdod

dreftu i awdurdod arall gyflawni ei swyddogaethau, yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau. Bwrtaid y Llywodraeth yw i Ddeddf 1972 gael ei diwygio gan y Mesur Addysg er mwyn codi'r cyfyngiad sy'n gynnwys yn achos cyllawni'r swyddogaeth addysg: bydd y gwelliant hwn yn dilyn yn sgîl y Cymal a fyddai, o'i gymeradwyo gan y Senedd, yn diddymu'r gofyniad i gael pwyllgorau addysg. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu codi'r cyfyngiad sy'n gynnwys mewngwasanaethau cymdeithasol yn achos yr awdurdodau unedol. Mae hon yn ffordd bwysig arall o alluogi'r awdurdodau newydd i ddarparu gwasanaethau i'w gilydd.

**Cyflwyniad**

**4.1** Bydd llywodraeth leol yn parhau i gael ei barnu'n bennaf yn ôl y

gwasanaethau a ddarperir ganddi. Ni fydd pobl leol yn edrych ar unrhyw strwythur o lywodraeth leol, ni waeth pa mor agos y gellir ei gysylltu â

chymunedau, fel un boddhaol os na fydd yn cynnig gwerth am arian. Cred y

Llywodraeth y bydd sefydlu'r strwythur newydd o awdurdodau unedol yn creu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau. Bydd y cynigion a amlinellir yn y bennod hon

yn creu'r fframwaith ystyrlt y mae'n rhaid wrtho os bwriedir i'r awdurdodau newydd fynd i'r afael â heriadau'r 21ain ganrif yn llwyddiannus. Mewn

achosion lle byddar'n aneffeithlon i bob awdurdod gynllunio, rheoli, sicrhau a chyflwyno'r gwasanaeth ar ei ben ei hun, bydd y Llywodraeth yn annog

datblygu trefniadau cydweithio. Ni fydd y Llywodraeth yn caniatáu i ad-drefnu arwain at leihad yn safonau gwasanaethau; byddai canlyniad o'r fath yn

annerbyniol i bobl leol ac yn niweidio llywodraeth leol fel sefydliad.

**Swyddogaethau Llywodraeth Leol**

**4.2** Mae'r nifer fawr o wasanaethau lleol a ddarperir gan awdurdodau lleol

yn dwyn effaith uniongyrchol ar fywydau'r trigolion lleol ac mae iddynt ran holl-bwysig wrth lunio cymdeithas. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn, er

enghraifft addysg, yn weledig ac yn rhan o ffabrig ein bywydau beunyddiol. Mae eraill yn llai gwledig ond yr un mor bwysig; megis iechyd y cyhoedd a

chael gwared ar wastraff.

**4.3**

Bydd llywodraeth leol yn cyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol ag ystod o ddarpariaethau statudol, sydd naill ai'n rhoi pwerau i'r awdurdodau

lleol, neu'n gosod dyletswyddau arnynt. Mae cynigion y Llywodraeth yn symud ymlaen ar y sail y dylai'r fframwaith hwn o bwerau a dyletswyddau, a'r

cydbwysedd presennol rhyngddynt, gael ei gadw.

**Awdurdodau Hwyluso**

**4.4** Mae'r Papur Gwyn "Competing for Quality - Buying Better Public

Services" yn gwneud ymrwymiad y Llywodraeth i ddarblygu ymhellach ar y cysyniad o awdurdodau hwyluso yn eglur. Taseg yr awdurdodau lleol yw

adnabod gofynion, pennu blaenoriaethau, penderfynu ar safonau gwasanaethau a dod o hyd i'r ffordd orau o sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu cyrraedd.

Mae hyn yn gofygu symud oddi wrth y model traddodiadol lle byddai'r awdurdodau lleol yn darparu bron pob gwasanaeth yn uniongyrchol, ac mae'n

rhagdybio gwahaniaeth mwy eglur rhwng y gweithgareddau i gyflwyno gwasanaethau a'r gweithgareddau cynllunio a gorchuwyllo strategol.



### 3.8 Rfferenda ar Faterion Trwyddedu

Ni chaiff cynigion y Papur Gwyn hwn unrhyw effaith ar weithredu'r deddfau trwyddedu yng Nghymru mewn perthynas ag agor tafarnau ar y Sul. Bydd ardaloedd "gwlyb" a "sych" Cymru yn cadw eu statws presennol nes cynnal refferenda nesaf; felly yn achos awdurdod arfaethedig Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd, a greir o dair ardal, dwy ohonynt yn "wlyb" ac un yn "sych"; ni chaniateir i dafarnau agor ar y Sul ond yn y rhannau hynny o'r awdurdod sydd eisoes yn "wlyb". Lle cynhelir refferenda ar ôl 1995, cant eu trefnu ar gyfer y cyfan o ardal pob awdurdod newydd.

### 3.9 Anrhydeddau Dinesig

Mae gan rai awdurdodau lleol hawliau a breintiau arbennig a roddwyd iddynt yn rhinwedd eu statws fel bwrdeistrefi cyn 1974. Bwriad y Llywodraeth yw i'r awdurdodau newydd allu gwneud cais i'r hawliau a'r breintiau presennol hynny gael eu hestyn iddynt hwythau. Caiff hawliau a breintiau rhyddfrefeinwyr a henaduriaid anrhydeddus eu gwarchod.

### 3.10 Rheolaeth Fewnol

Amlygodd y broses ymgynghori natur amrywiol trefnidau rheolaeth fewnol awdurdodau lleol Cymru. Cred y Llywodraeth mai cryfder yw hwn sy'n caniatáu i'r awdurdodau unigol adlewyrchu eu harddull rheoli eu hunain a diwylliant eu hardaloedd. Er mwyn annog parhad ystwythder, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cymryd pŵer i ganiatáu i awdurdodau unigol, os dymunant, arbrofi â mathau gwahanol o drefnidau. Pe caniateid arbrwf o'r fath, fe gâ'r awdurdod weithredu'r strwythur trefnidau newydd, gyda mesurau diogelwch priodol, am gyfnod cyflyngedig (5 mlynedd o bosibl). Ar ddiwedd y cyfnod hwn, câ'r trefnidau eu hadolygu a gellid natll ai eu parhanu neu eu diddymu.

ar hyn o bryd yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau ar gyfer yr 8 sir presennol. cynyddu nifer yr Arglwyddi Rhaglaw ar unwaith, a bydd y rhai sy'n dal y swydd weinyddu cyflawnder yn eu hardaloedd. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu Rhaglaw ac mae ganddynt gyfrifoldeb dros luoedd wrth gefn y Goron a thros Cynrychiolwyr personol y Frenhines yn y sir oedd yw'r Arglwyddi

### 3.7 Arglwyddi Rhaglaw


statws cyfartal yn y ddwy iaith. deitlau hyn yn Gymraeg a Saesneg; bydd gan enw a theitl unrhyw awdurdod cadw eu statws fel dinasoedd, ac yn dilyn yr enw 'Dinas a Sir'. Pennir yr holl Fwrdeistrefi Siroi (yn yr ardaloedd trefol). Bydd Caerdydd ac Abertawe yn Siroedd (yn yr ardaloedd gwledig) neu, os ceir caniatâd Brenhinol yn y mae'r enw yr un peth yn y ddwy iaith. Bydd yr awdurdodau newydd naill ai'n y Mesur. Cant eu henwi yn Gymraeg a Saesneg, ac eithrio'r achosion hynny lle Mae'r Llywodraeth yn bwriadu i'r ardaloedd newydd gael eu henwi yn

### 3.6 Enwan a Theitlau


21 O AWDURDODAU UNEDOL	POBLOGAETH (OEDOLION)	POBLOGAETH (CYFANSWM)	ARWYNEBEDD (ha)
1. Sir Fôn	55,400	69,800	72,000
2. Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd	94,900	117,500	264,000
3. Aberconwy a Cholwyn	89,100	108,600	110,000
4. Sir Ddinbych	89,200	110,900	96,000
5. Sir y Fflint	96,900	122,000	25,000
6. Wrecsam	97,700	123,600	46,000
7. Sir Aberteifi	54,600	66,700	179,000
8. Powys	88,300	109,800	507,000
9. Sir Gaerfyrddin	135,000	170,400	239,000
10. Sir Benfro	90,200	113,700	159,000
11. Abertawe	183,900	230,100	38,000
12. Gorllewin Morgannwg	119,100	148,900	49,000
13. Pen-y-Bont ar Ogwr	101,200	127,600	26,000
14. Bro Morgannwg	96,000	121,800	33,000
15. Cymoedd Morgannwg	188,000	238,200	43,000
16. Blaenau'r Cymoedd	120,900	155,100	30,000
17. Caerffili	120,300	153,100	22,000
18. Tor-faen	71,700	91,200	13,000
19. Sir Fynwy	61,400	76,600	83,000
20. Casnewydd	106,000	135,400	19,000
21. Caerdydd	233,400	295,400	14,000

ar hyn o bryd yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau ar gyfer yr 8 sir presennol.

# Llywodraeth Leol yng Nghymru: Siarter ar gyfer y Dyfodol



# Strwythur Presennol y Siroedd a'r Dosbarthau



**Cyflwyniad****3.1** Cynigiodd papur ymgynghori Ysgrifennydd Gwladol Cymru

“– cyhyd ag y bo modd, y dylai ffiniau'r awdurdodau lleol adlewyrchu teyrngarwch cymunedau presennol a'i gryfhau; ac

– y dylai gwasanaethau cyhoeddus lleol fod o safon uchel, a chael eu cyflwyno'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol.”

Mae cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer cyflwyno gwasanaethau awdurdodau lleol wedi'u nodi ym Mhenod 4. Mae ystyriaethau ynglyn â gwasanaethau wedi helpu i lunio'r map newydd o lywodraeth leol, gan ei bod yn angenrheidiol cydbwso teyrngarwch cymunedau yn erbyn asesiad realistig o sut y gellir sicrhau cyflwyno gwasanaethau awdurdodau lleol yn effeithiol.

**3.2** Mae hanes yn ffactor bwysig arall. Mae'r Llywodraeth yn bendant y bydd sefydlu awdurdodau lleol i wasanaethu llawer o'r ardaloedd traddodiadol cydnabyddedig yn syllfaen cadarn ar gyfer strwythur o lywodraeth leol y bydd pobl Cymru yn ei ddeall ac yn gallu uniaethu ag ef.

**Cynigion y Llywodraeth**

**3.3** Mae'r Llywodraeth yn bwriadu creu 21 o awdurdodau newydd yn lle'r 45 o awdurdodau presennol (8 cyngor sir a 37 o gynghorau dosbarth) y caiff pob un ohonynt ei diddymu o 31 Mawrth 1995 ymlaen. Ym Map 1 gwelir y strwythur presennol ac ym Map 2 ardaloedd yr awdurdodau newydd, a ddisgrifir yn llawnach yn Atodiad 1.

**3.4** Bydd y Mesur a gyflwynir gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn pennu ffiniau'r awdurdodau newydd. Pan fydd yr awdurdodau newydd yn eu lle, mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynnal adolygiad o ffiniau pob awdurdod, gyda golwg ar nodi unrhyw anghysondebau a'u cywiro.

**3.5** Er y caiff yr 8 cyngor sir presennol eu diddymu, bydd ardaloedd y siroedd presennol yn aros at rai dibenion, gan gynnwys dibenion Comisiwn Ffiniau Seneddol Cymru. Lle bo'n briodol, bydd y Mesur yn darparu ar gyfer addasu'r ardaloedd hyn i sicrhau na fyddant yn croesi ffiniau ardaloedd newydd llywodraeth leol. Am yr un rheswm, gall fod rhaid addasu ffiniau rhai asianiaethau gweinyddol yng Nghymru. Trafodir hyn ymhellach ym Mhenod 4.

## Gwerth am Arrian

Cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn effeithlon ac yn ddarbodus o fewn yr adnoddau y gall y genedl eu fforddio. Dilysu annibynnol ar berfformiad yn erbyn safonau.

**2.4** Mae'r Llywodraeth yn benderfynol y dylai'r awdurdodau newydd

gymmwys y bobl leol yn llawnach yn y broses o weinyddu lleol. Dylai dimasyddion unigol gael mwy o gyflie i reoli neu i ddylanwadu ar benderfyniadau ar faterton

sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt; mae hyn eisoes yn digwydd mewn addysg.

er enghraifft, ac mae'r Llywodraeth yn gweld ad-drefnu llywodraeth leol fel cyflie pellach i ddatblygu'r thema hon. Mae'r Papur Gwyn hwn yn cynnwys cynigion i

ymestyn swyddogaeth y cynghorau cymuned (er mwyn i lais y gymuned leol gael

ei glywed yn glirach gan y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau cyn i'r

penderfyniadau sy'n effeithio ar gymuned gael eu gwneud) ac ar gyfer trefniadau i'r bobl leol gael gwybodaeth gyflawnach ar sut y mae'r awdurdodau newydd yn

bwriadu darparu eu gwasanaethau. Bydd y Llywodraeth yn parhau i fwrw

ymlaen â'i mentrau o dan Siatel y Dinesydd, gan annog yr awdurdodau lleol

newydd i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ôl safon y gallwn oll ymfalchio ynddo. Anogir yr awdurdodau lleol i gynhyrchu eu siartiau eu hunain, gan nodi

sut y maent yn bwriadu datblygu'r egwyddortion o wasanaeth cyhoeddus yn

gamau ymarferol yn eu hardaloced eu hunain.

**2.5** Mae ystyriaethau iatn yn bwysig wrth ddarparu gwasanaethau

cyhoeddus i bobl Cymru. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno Mesur yn y Senedd i hybu a hyrwyddo defnyddio'r iatn ymhellach. O dan delerau'r Mesur, bydd

yn ofynnol i gyrtff cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynlluniau i nodi sut y

byddant, ar draws yr ystod gyfan o wasanaethau cyhoeddus, yn gwreiddu'r

egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar sail cydraddoldeb.

Rhaid i'r cynlluniau hynny roi sylw i ganllawiau Bwrdd yr Iatn Gymraeg, a

fydd yn gorff statudol. Os caiff y Mesur ei dderbyn, bydd y darpariaethau hyn yn gymwys i'r awdurdodau lleol newydd, y bydd pob un ohonynt yn cynhyrchu

cynllun neu gynlluniau ar gyfer y gwasanaethau y maent yn gyrtffol amdanynt.

**2.1** Llywodraeth ar gyfer pobl leol gan bobl leol yw llywodraeth leol. Un o

amcanion ad-drefnu yw sefydlu awdurdodau a fydd, cyn belled â phosibl,

wedi'u seilio ar yr ymwybod cryf o gymuned a wellir ym mywyd Cymru. Cred y

Llywodraeth y bydd creu awdurdodau o'r fath yn annog mwy o gyfranogiad ym

mhob agwedd ar lywodraeth leol.

**2.2** Mae gan y Llywodraeth weledigaeth glir o ddyfodol yr awdurdodau

lleol. Eu swyddogaeth fydd sicrhau gwasanaethau o safon uchel oddi wrth

amrywiaeth o ddarparwyr, bod yn wirioneddol ymatebol i dymuniadau a

buddiannau pobl leol, a chyntrychioli'r buddiannau hynny yn eu hymwneud â

chyrff cyhoeddus a phreifat eraill.

**2.3** Mae gennyym oll hawl i ddisgwyl gwasanaeth o safon uchel gan yr

awdurdodau lleol yn unol ag egwyddortion y gwasanaethau cyhoeddus a

gyhoeddwyd yn Siarter y Dinesydd, sef:

### Safonau

Pennu, arolygu a chyhoeddi safonau eglur ar gyfer y gwasanaethau y gall

defnyddwyr unigol eu disgwyl yn rhesymol. Cyhoeddi'r perfformiad

gwirioneddol yn erbyn y safonau hyn.

### Gwybodaeth Agored

Gwybodaeth gyflawn a chywir, a honno ar gael mewn iaith syml am sut y rhedir

gwasanaethau, faint y maent yn ei gostio, pa mor dda y maent yn perfformio a

phwy sydd â'u gofal.

### Dewis ac Ymgynghori

Y sector gyhoeddus i gymig dewis lle bynnag y bo'n ymarferol. Ymgynghori

theolaidd a systematig gyda'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau. Barn

defnyddwyr am wasanaethau, a'u blaenoriaethau ar gyfer eu gwella, i'w

chymryd i ystyriaeth mewn penderfyniadau tertlynol am safonau.

### Cwrteisi a Chymorth

Gwasanaeth cwrtais a chymorth oddi wrth weision cyhoeddus a fydd fel arfer

yn gwisgo bathodlymanau enw. Gwasanaethau ar gael yn gyfartal i bawb sydd â

hawl i'w cael, a'u rhedeg er hwyjustod iddynt.

### Cywiro Pethau

Os aiff pethau o chwth, ymddiheuriad, esboniad llawn ac ateb cyflym ac

effeithiol. Trefn gwyno hysbys a hawdd ei defnyddio, gydag adolygu amibymnoi

lle bynnag y bo modd.

## Y Broses Adolygu

1.5

Cynhaliwyd yr adolygiad o lywodraeth leol Cymru drwy gyfrwng Cyngor Ymgynghoriol Lywodraeth Leol a hynny ar ôl ymgynghori ar bob cam o'r ffordd. Mae'r ymgynghori wedi cadarnhau mesur helaeth o gytundeb yng Nghymru ei bod yn ddymunol cael strwythur o awdurdodau lleol unedol. Mae'r mwyafrif llethol o'r sylwadau a ddaeth i law i ymateb i Bapur Ymgynghori'r Ysgrifennydd Gwladol wedi mynegi cefnogaeth i'r bwriad o gael system newydd o lywodraeth leol yn lle'r trefniadau presennol. Mae cymdeithasau'r awdurdodau lleol wedi rhoi llawer iawn o gymorth wrth ddadansoddi goblygiadau strwythur o'r fath. Mae'r Lywodraeth yn croesawu'r cytraniaid cadarnhaol hwnnw; mae'n dymuno cadw'r trefniadau ymgynghori a lydd yn fodd i lywodraeth leol Cymru barhau i weithio'n agos gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar faterion sydd o gyd-ddiddordeb.

## Y Ffordd Ymlaen

1.6

Mae'r Lywodraeth wedi penderfynu, o dan amgylchiadau arbennig Cymru, mai'r ffordd gywir ymlaen yw adeliadau ar ddiwygiadau 1974 drwy sefydlu system o awdurdodau unedol newydd, i fod yn gyfrifol am yr ystod eang o swyddogaethau y mae'r cynghorau sir a'r cynghorau dosbarth yn ymgymryd â hwy ar hyn o bryd. Cred y Lywodraeth y bydd strwythur o'r fath: — yn hybu democrataeth leol drwy gynyddu atebolrwydd awdurdodau lleol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu; — yn lleihau'r costau gweinyddol sydd ynghlwm wrth ddyblygu theolaeth ganolog ar lefel y sir a lefel y dosbarth; ac — yn cynnig cyfle ar gyfer gwell cydgyssylltu, ansawdd a chost- effeithiolrwydd wrth gyflwyno gwasanaethau llywodraeth leol.

1.7

Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynlluniau'r Lywodraeth ar gyfer sefydlu awdurdodau unedol ledled Cymru, gan ddisgrifio ffiniau'r awdurdodau arfaethedig. Esbonir sut y caiff gwasanaethau llywodraeth leol eu cyflwyno o dan y strwythur newydd, yn arbennig felly drwy ddatblygu ymhellach ar yr egyptodol hwylyso a thrwy gydweithio rhwng awdurdodau i sicrhau darparu gwasanaethau arbennig. Disgrifir hefyd y rôl ehangach a ragweilir ar gyfer y cynghorau cymuned o dan y strwythur newydd a'r trefniadau gweithredu, gan gynnwys trefniadau i ddiogelu buddiamau staff llywodraeth leol.

1.8

Mae'r Lywodraeth yn bwriadu cyflwyno Mesur i weithredu'r cynlluniau hyn ac yn bwriadu i'r awdurdodau newydd ymgymryd â'u cyfrifoldebau o 1 Ebrill 1995 ymlaen. Byddai'r Lywodraeth yn croesawu sylwadau ar y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn. Dylid cyfeirio sylwadau at Grŵp Ad-drefnu Lywodraeth Leol (Papur Gwyn), Ysfaell 2-113, Y Swyddfa Gymerig, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ. Os na cheir cais i'r gwrthwyneb, caiff yr ymatebion a ddaw i law eu gosod yn llyfrgell y Swyddfa Gymerig ac yn Llyfrgelloedd y Senedd.



**1.1** Ym Mehefin 1991 cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru bapur ymgynghori, "Strwythur Llywodraeth Leol yng Nghymru". Cynigiodd hwnnw greu system o awdurdodau unedol ledled Cymru, fel y seiliau gorau ar gyfer llywodraeth leol Cymru yn yr 21ain ganrif. O ganlyniad, cyhoeddwyd papurau ymgynghori pellach i drafod Rheolaeth Fewnol yr Awdurdodau Lleol a Swyddogaeth y Cynghorau Cymuned yn y Dyfodol. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi casgliadau'r Llywodraeth ac yn rhoi cychwyn ar y broses o newid.

## Y Rhesymau dros Ad-dreinu

**1.2** Nid yw'r Llywodraeth yn credu bod y system bresennol o lywodraeth leol yng Nghymru wedi'i deall yn helaeth; ac nid ydyw ychwaith yn adlewyrchu digon ar y ffordd y mae pobl yn uniaethu â'u cymunedau a'u bröydd eu hunain. Mae'r strwythur presennol o ddwy haen (s'r a dosbarth) yn gam sylweddol ymlaen ar y set gymhleth o drefniadau a gafwyd yn ystod y ganrif flaenorol; er hynny mae'n eglur bellach nad yw'r ardaloedd llywodraeth leol a ddisodlodd yr hen siroedd (a oedd wedi bodoli ers dros 400 mlynedd), a hynny heb adlewyrchu bob amser gysylltiadau traddodiadol pobl â chymunedau, wedi ennill cydymdeimlad llwyr y cyhoedd. Ni all strwythur o lywodraeth leol sydd heb gefnogaeth y cyhoedd fod mor effeithiol ag y mae'n rhaid iddo fod er mwyn bodloni heriadau'r ganrif nesaf.

**1.3** Ymhellach, mewn system dwy-haen o siroedd a dosbarthau mae posibilrwydd gwrthdaro rhwng awdurdodau - a dyblygu gwaith gweinyddu - sy'n lleihau gallu'r system i gyflwyno gwasanaethau'n ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Ac ychydig y mae'r cyhoedd yn ei ddeall o gyfrifoldebau'r naill haen a'r llall, sef sefyllfa sy'n tansellio'r atebolrwydd uniongyrchol i'r bobl leol y dylid seilio arno.

## Nodau Ad-dreinu

**1.4** Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i greu llywodraeth leol dda sy'n agos at y cymunedau a wasanaethir ganddi. Ei nodau yw sefydlu awdurdodau sydd, cyn belled â phosibl, wedi'u seilio ar yr ymwybod cryf o gymuned sy'n gymaint o nodwedd ar fywyd Cymru; sydd yn eglur yn atebol i bobl leol; a all, drwy fanteisio i'r eithaf ar swyddogaeth "hwylyso" llywodraeth leol, weithredu mewn ffordd effeithlon ac ymatebol; ac a fydd yn cydwethio â'i gilydd, a chydag asiantaethau eraill, i hybu lles y rhai a wasanaethir ganddynt. Bydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn yn cyrraedd y nodau hynny; byddant yn sefydlu awdurdodau lleol newydd ac artioesol, a'r rheiny gyda gwreiddiau cadarn yn eu cymunedau ac yn enbyn cefnogaeth leol grel.

CYNNWYS

PENNOD 1	Strwythur Newydd i Lywodraeth Leol yng Nghymru	2
PENNOD 2	Llywodraeth Leol a Phobl Leol	4
PENNOD 3	Yr Awdurdodau Newydd	6
PENNOD 4	Gwasanaethau Awdurdodau Leol	11
PENNOD 5	Staff Llywodraeth Leol	24
PENNOD 6	Cyllid	26
PENNOD 7	Cynghorau Cymuned yn y Strwythur Newydd	29
PENNOD 8	Gweithredu	32
Atodiad 1	Awdurdodau ac Ardalioedd Newydd	35
Atodiad 2	Trefniadau Iawndal i Staff yr Awdurdodau Leol	37



RHAGAIR

GAN YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU  
Y GWIR ANRH DAVID HUNT MBE AS

Ers tro byd mae llywodraeth leol yn fater o bwysigrwydd mawr i bobl Cymru: ac felly y dylai fod, am fod cyfraniad ein hawdurdodau lleol at gymydd cymdeithasol ac economaidd Cymru dros y 100 mlynedd diwethaf wedi bod yn anterth. Ac eto gwelwyd dros y 30 mlynedd diwethaf nad yw popeth yn iawn; drwy gydol y cyfnod hwnnw cafwyd awgrymiadau y dylid newid y strwythur, a chafwyd ad-drefnu mawr ym 1974. Er gwaethaf hyn, parhau a wnaeth y pryderon ac yr oedd yn briodol i ni edrych ar y mater eto.

Ddwy llynedd yn ôl, cyhoeddais fwrriad y Llywodraeth i gynnal adolygiad sylfaenol ar strwythur, swyddogogaethau a chyllid llywodraeth leol yng Nghymru. Fel fy holl ragflaenwyr fel Ysgrifennydd Gwladol, nid oeddwn o'r farn ei bod yn briodol setydlu Comisiwn i gynnal yr adolygiad. Yn lle hynny, yr wyf wedi ymgynghori'n uniongyrchol â llywodraeth leol yng Nghymru, a'r partion eraill sydd â diddordeb a, thrwy gyfrwng fy Mhapurau Ymgynghori, a'r cyhoedd. Mae'n eglur iawn, ar hanfodion strwythur llywodraeth leol, fod cytundeb helaeth iawn - mai awdurdodau unedol yw'r ffordd orau ymlaen.

Bellaach yr ydym yn cyhoeddi'n cynigion manwl i symud llywodraeth leol yng Nghymru i mewn i'r ganrif nesaf, yn gryf ac yn iach i fodloni'r heriadau newydd y bydd yn eu hwynebu. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynlluniau'r Llywodraeth i sicrhau hynny. Cynhwysir ein cynlluniau ar gyfer yr awdurdodau unedol newydd, eu ffiniau, y gwasanaethau a gyflwynir ganddynt, a'r canlyniadau i'r bobl sy'n cyflwyno'r gwasanaethau hynny. Bydd y cynigion hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar bawb yng Nghymru. Gobeithio y bydd cynifer â phosibl o bobl yn achub ar y cyfle i'w darllen, a hynny am eu bod yn ymddrin â mater holl-bwysig - sut y caiff ein trefi, ein dinasoedd a'n hardaloedd gwledig eu llywodraethu yn y dyfodol.



Gorch. 2155 LUNDAIN: GWASG EI MAWRHYDI

Cyflwynwyd gerbron y Senedd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru  
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi!  
Mawrth 1993

LTWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU:  
SIARTER AR GYFER Y DYFODOL

Y Swyddfa Gymreig





Mae cyhoeddiadau Gwasg Ei Mawrthidi ar gael oddi wrth:

**Canolfan Cyhoeddiadau Gwasg Ei Mawrthidi**

(Archebion post, ffacs a ffon yn unig)

Blwch Post 276, Llundain SW8 5DT

Archebion ffon 071-873 9090

Ymholiadau cyffwrdd 071-873 0011

(system aros eich tro ar gyfer y ddau rîd)

Archebion ffacs 071-873 8200

**Siopau Llyfrau Ei Mawrthidi**

49 High Holborn, Llundain WC1V 6HB

071-873 0011 Ffacs 071-873 8200 (wrth y cownter yn unig)

258 Broad Street, Birmingham B1 2HE

021-643 3740 Ffacs 021-643 6510

Souhey House, 33 Wine Street, Brysic BS1 2BQ

0272 264306 Ffacs 0272 294515

9-21 Princess Street, Manceinion M60 8AS

061-834 7201 Ffacs 061-833 0634

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD

0232 238451 Ffacs 0232 235401

71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ

031-228 4181 Ffacs 031-229 2734

**Asiantau Achrededig Gwasg Ei Mawrthidi**

(Gweler Yellow Pages)

*a thrwy lyfwrthwyr da*



ISBN 0-10-121552-5

9

